

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Ffion Enlli



Cafodd Ffion Enlli ei magu yn Aberdaron ym mhen draw Llŷn. Bu'n byw, astudio a gweithio ym Mharis, Perpignan, Surrey a Llundain. Er bod darn o'i chalon yn dal dros y dŵr yn Ffrainc, hap a damwain a phandemig ddaeth â hi'n ôl i fro ei mebyd yn llawer cynt nag oedd hi wedi fwriadu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hi wedi bod yn gwirfoddoli a rhedeg caffi fel rhan o brosiect cymunedol Plas Carmel yn Anelog, tra'n 'sgwennu Cwlwm, ei nofel gyntaf.

### Crynodeb:

Pwy fyda ni heb gyfyngiadau cymdeithas? Ydi pobl yn perthyn i ddarn o dir? Ydi cenedl heb iaith wir yn genedl heb galon? Mae byw yn un o ddinasoedd mwya'r byd yn peri i Lydia Ifan ddechrau gofyn cwestiynau. Wrth iddi chwilio am yr atebion, mae hi'n colli gafael ar y person oedd hi'n feddwl oedd hi. Dyma nofel am gymhlethdodau hunaniaeth Gymreig - am wreiddiau a gollwng gafael, am berthyn a bod ar goll - a beth mae hynny'n ei olygu i ferch yn yr unfed ganrif ar hugain.

### Dywedwch ychydig am eich llyfr newydd ...

Llyfr sy'n edrych ar gymhlethdodau hunaniaeth Gymreig trwy lygaid merch ifanc o'r enw Lydia Ifan, wrth iddi stryffagalu trwy ei hugeiniau hwyr yn Llundain.

### Oedd unrhyw heriau arbennig wrth baratoi'r llyfr?

Gan mai hwn oedd fy nofel gynta' i, hanner yr her oedd dod i nabod fy hun fel nofelydd a'r ffordd oedd fy ymennydd yn gweithio. Oeddwn ni'n gynlluniwr? Ta oedd y plot yn mynd i ddod i mi wrth 'sgwennu? Oeddwn ni fod i orfodi'n hun i godi efo'r wawr a sgwennu'n daclus wrth fy nesg, ta oeddwn ni'n gwrando ar be oedd gan Lydia i ddweud yng nghanol y nos? Mi oedd hyn i gyd yn rhywbeth oeddwn ni'n gorfod ei ddysgu wrth fynd. Mi oedd dechrau busnes caffi ar yr un pryd yn dipyn o her hefyd, amwni!

### Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu?

Fy mherthynas i fy hun efo fy nghymreictod oedd egin y nofel. Mi oni'n gweld stori yng nghymhlethdodau'r berthynas 'na, a sut oedd hi wedi newid a datblygu dros y blynyddoedd.

### O ble ydych chi'n cael eich ysbrydoliaeth?

Pobl. Sgyrsiau. Ymatebion. Sefyllfaeodd bychain bywyd. Wrth sefyll ar greigiau Uwchmynydd yn edrych allan ar y môr ac ar Enlli. Wrth sefyll yn y gawod.

### Pe bai'n rhaid i chi ddisgrifio eich hun mewn tri gair yn unig, beth fyddai'r rheini?

Sylwgar, empathig, munud-olaf.

Y Lolfa

[www.ylolfacom](http://www.ylolfacom)



Llyfrgelloedd Cymru  
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A  
ar wefan

[llyfrgelloedd.cymru](http://llyfrgelloedd.cymru)

